

Llun 6 Mawrth 2017

Annwyl aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a'r tîm cymorth,

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a anfonwyd i'r swyddfa yn Chwefror 2017.

Rwy'n cydnabod yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun cyflawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Sir Gaerfyrddin a'ch cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynghlwm gweler ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a sut yr ydych yn bwriadu adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), sydd eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau macsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae strwythur y 'cyfnodau cylch bywyd' yn ymagwedd ddiddorol a chymhellgar yr wyf yn ei hargymell. Drwy adrodd stori am y pethau sy'n penderfynu llesiant yr unigolyn a sut y mae arnynt angen gwasanaethau cyhoeddus ar wahanol adegau, rydych yn dod â'r asesiad yn fyw a'i wneud yn hygyrch i gynulleidfa ehangach. Rwy'n hoffi'n arbennig y ffordd yr ydych

wedi cynnwys dyfyniadau clir oddi wrth bobl ifanc 11-16 mlwydd oed yn y ddwy adran cylch bywyd cyntaf.

Mae'n amlwg eich bod wedi meddwl llawer am ennyn **ymgyfraniad pobl a chymunedau**, drwy ymgysylltu'n eang ag ystod drawiadol o gyrff, ac unigolion a grwpiau. Mae'r dull yr ydych wedi fframio'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg yn nodedig, gan ffocysu ar unigolion, cartrefi a gwasanaethau yn ogystal â gofyn am y dyfodol. Buaswn yn eich annog i adeiladu ar hyn i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymglyfrannu drwy ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud.

Mae cynllunio ar gyfer yr **hirdymor** yn rhan allweddol o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn bwriadu ei wireddu ac mae hyn yn rhywbeth a fyddai o fudd i chi, y gallech roi mwy o ystyriaeth iddo wrth symud tuag at gynllunio llesiant. Credaf fod gennych gyfle arbennig i adeiladu hyn i mewn i'ch ffrâm 'cyfnodau bywyd', drwy ystyried llesiant unigolyn (neu gymuned) yn y flwyddyn 2040 drwy gynllunio senarios.

Yn nhermau **integreiddio**, roedd diddordeb gennyf yn y ffordd yr ydych wedi mapio'ch gwaith yn erbyn y 46 dangosydd cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn a'ch strwythur ehangach yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer archwilio ymhellach y cysylltiadau rhwng llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol mewn perthynas â chyfnodau arbennig bywyd. Dylech adeiladu ar hyn drwy sicrhau eich bod yn creu cysylltiadau sy'n berthnasol i'r saith nod llesiant drwy gydol eich gwaith a fydd yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau cymharol eich sefydliadau gwahanol wrth i chi **facsimieiddio eich cyfraniad tuag at y nodau**.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt. Tra'ch bod yn cydnabod pwysigrwydd atal yn rhai o'ch cyfnodau bywyd, yn gyffredinol byddai'r asesiad ar ei ennill petaech yn disgrifio'r modd y mae'r agenda atal yn hollbwysig ar gyfer cynllunio llesiant a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn faes lle mae angen i chi ffocysu ar yr hyn a ddywedir wrthyhch gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd – sylwais eich bod wedi gweithio ar y cyd â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a Sir Benfro yn ystod eich gwaith ymgysylltu ac mae hyn yn galonogol iawn. Yn awr mae gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth yn Sir Gaerfyrddin i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad fod yn eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo'ch cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn

o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech symud tuag at gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach am y modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad i symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu sy'n rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe,
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar

Asesiad o Lesiant Lleol drafft BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR GAERFYRDDIN

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin ar *Asesiad o Lesiant Lleol drafft Sir Gaerfyrddin* a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yn Chwefror 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Asesiad o Lesiant Sir Gaerfyrddin 2016
- Ymgynghoriad Llesiant ac Adroddiad Ymgysylltu: Sir Gaerfyrddin
- Asesiad o Gyd-fethodoleg Llesiant Lleol: Fframwaith: Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, Mawrth 2016
- Taflen ffeithiau
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin – Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol – Data Gwaelodlin
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect ac aelodau tîm y BGC ar 20fed Chwefror

Y bwriad yw i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i lywio'r dasg o gyhoeddi'r asesiad yng ngwanwyn 2017, lle mae hynny'n bosibl o gadw mewn golwg yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich asesiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r asesiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr asesiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at asesiad llesiant lleol, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Tra'n bod yn deall mai proses barhaus yw'r Asesiadau Llesiant, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol y byddir yn

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion yr ydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i FGCau ddangos sut y maent yn cynllunio i *facsimiddio* eu cyfraniad i'r nodau.

Rydym ar ddeall y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Sir Gaerfyrddin, y pum cyfnod bywyd: *Dechrau o'r newydd; Plentyndod; Ieuencid; Oedolion a Phobl Hŷn* ac 18 o 'is-gyfnodau' o dan y rhain. Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi cael ei adeiladu o amgylch llesiant diwylliannol, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Byddai'n ddefnyddiol petai'r asesiad yn egluro'r rheswm dros fabwysiadu'r ymagwedd hon ac yn rhoi'r tablau yn y Crynodeb Gweithredol yn eu cyd-destun. Pam mae'r 18 cyfnod hwn, a'r materion allweddol o dan bob un, yn fwy perthnasol i lesiant na'r rhai eraill.

Rydym yn cydnabod, nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, bod y ffocws ar gyfnodau bywyd yn ddefnyddiol mewn llawer ffordd. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yna gysylltiad clir rhwng y data, ei ddadansoddiad a'n dealltwriaeth ni o'r modd y mae canfyddiadau'r asesiad yn effeithio ar nodau llesiant cenedlaethol yn ogystal â nodau llesiant lleol.

Tra cyfeirir at y saith nod cenedlaethol yn y cyflwyniad, nid oes cyfeiriad atynt o dan y cyfnodau bywyd neu'r 18 is-gyfnod neu o fewn y dystiolaeth neu'r dadansoddiad o fewn pob adran. Credwn, os ydyw'r BGC i ddeall sut y gall facsimiddio ei gyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol bod angen i'r berthynas rhwng y 'ffrâm' hon yn yr asesiad â'r nodau llesiant gael eu deall a'u cyfleu yn glir.

Mae'n ddiddorol iawn a phositif i weld bod y BGC wedi archwilio Sir Gaerfyrddin yn erbyn y dangosyddion cenedlaethol, gan nodi heriau allweddol y newid yn yr hinsawdd, tloedi ac allyriadau CO2. Gallech adeiladu ar hyn i egluro *arwyddocâd* yr anghenion llesiant cymunedol ac effaith posibl y materion hyn ar gyfnodau bywyd. Beth a ddywed y tabl yma wrthym am lesiant ar draws Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol?

Mae'n dda i glywed oddi wrth y tîm BGC y bydd y cydweithio a gynllunnir gyda phartneriaid yn ystod y misoedd sydd i ddod yn ffocysu mwy ar y nodau llesiant, fel yr awgrymwyd yn yr adran 'Beth sy'n digwydd nawr?' ac edrychwn ymlaen at weld tystiolaeth o hyn drwy'r holl broses cynllunio llesiant yn Sir Gaerfyrddin.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau llesiant ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn.

Roedd yr alwad ffôn gyda'r tîm BGC yn ddefnyddiol ar gyfer deall yr anhawster o gasglu data ar lefel leol iawn. Mae'n glir o'r asesiad a'r rhestr gyfeiriadau bod ystod eang o ddata cenedlaethol, rhanbarthol a pheth data lleol wedi ei ddefnyddio i drwytho'r asesiad. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu sylwebaeth gymhellgar, berthnasol i Sir Gaerfyrddin gyfan, wedi ei ysgrifennu'n dda, ar lesiant a'r pethau sy'n penderfynu llesiant unigolion.

Fodd bynnag, drwy'r holl Asesiad, mae yna raddau amrywiol o eglurhad o beth *yn union* a ddywedir wrthym gan y 'mesur' neu'r 'mater' am lesiant yn Sir Gaerfyrddin, ac yn bwysig, arwyddocâd y mater i lesiant dinasyddion. Mae'r tabl yn y Crynodeb yn enghraifft o hyn. Mae hwn wedi ei seilio o gwmpas y pum cyfnod bywyd a'r 18 thema. Mewn llawer man mae'n glir am 'yr hyn sy'n bwysig' yn nhermau llesiant Sir Gaerfyrddin fel 'lle', a'r goblygiadau ar gyfer llesiant e.e. (tloedi a chysylltiad â natur). Y manau lle mae angen i'r naratif gael ei ddatblygu yw mewn adrannau sy'n darparu disgrifiad mwy generig, heb ei ddaearu yn yr ardal leol, neu egluro graddfa'r her i'r ardal (aros ar y trywydd iawn, arferion iach, cychwyn da).

Mae hwn yn fater sy'n digwydd dro ar ôl tro mewn gwahanol adrannau o'r adborth hwn. Byddai'r asesiad ar ei ennill petai'n darparu mwy o gysondeb wrth ddehongli'r mater a darparu arwydd o'i arwyddocâd i Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol a'i dinasyddion.

Tra'n bod yn cydnabod gwerth y ffrâm cyfnodau bywyd, gallai'r asesiad hefyd gael ei wella drwy roi mwy o ffocws ar eich chwe ardal gymunedol. Gallai hyn gynnwys gwell dealltwriaeth o lesiant mewn gwahanol ardaloedd a llefydd, gwahaniaethau o fewn ardaloedd neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau a materion lleol arbennig o ddifrifol. Caiff tloedi a'r iaith Gymraeg eu cyfrif fel materion â gwahaniaethau gofodol – a rhai nodweddion tebyg – fodd bynnag mae'r anghydraddoldebau mewn mynediad i wasanaethau, tai, cysylltedd a thrafnidiaeth yn hanfodol ar gyfer deall y materion cyfnod bywyd mewn gwahanol rannau o Sir Gaerfyrddin. Credwn y dylai asesiad llesiant ddarparu dealltwriaeth fwy lleol (a llai homogenaidd) o lesiant, a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hyn wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo.

Golyga hyn nid yn unig roi disgrifiad o bwysigrwydd unrhyw fater (e.e. perygl llifogydd), ond ddehongliad o'r heriau allweddol a'r cyfaddawdau. Mae'r math hyn o wybodaeth o berthnasedd allweddol i'r BGC, cyflwyniad gwasanaethau a llesiant cymunedau yn y dyfodol.

4. Cynnwys data – anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar yr anghenion am wasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau arbennig o bobl.

Blaenoriaeth i fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod yn y lle cyntaf yn ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau gwirioneddol pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwasanaethau. Mae'n gadarnhaol i weld cysylltiad cryf rhwng yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Asesiad Llesiant yn adrannau Byw yn Annibynnol a Gofal yn y Gymuned yn y ddogfen hon.

Mae defnyddio ffrâm cyfnodau bywyd yn yr ymgyngoriad wedi rhoi mewnwelediad manwl i'r BGC o lesiant unigolion a'r hyn sydd arnynt ei angen oddi wrth y gwasanaethau cyhoeddus. Mae gweithgarwch yr ymgyngoriad hefyd yn darparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth am safbwynt pobl am yr hyn a gredant sy'n bwysig am eu hardal, sy'n cysylltu â chyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus. Mae naratif y brif ddogfen yn rhoi dealltwriaeth dda o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u hanghenion drwy gydol eu bywyd. Mae'r hyn sy'n cyfrif i ddinasyddion Sir Gaerfyrddin yn glir yn y tabl. Gallech adeiladu ar hyn drwy ystyried pa mor dda y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cynorthwyo'r materion hyn.

Gellid cryfhau eich ymagwedd drwy roi rhyw syniad o'r gwahaniaethau gofodol mewn gwasanaethau cyhoeddus ar draws Sir Gaerfyrddin (tu hwnt i her allweddol ei natur wledig). Er enghraifft yn yr achos o fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd mewn ardaloedd gwledig mewn cymhariaeth ag ardaloedd trefol, sut y gallai hyn wahaniaethu mewn gwahanol drefi a phentrefi ar draws Sir Gaerfyrddin, a sut y mae darpariaeth gwasanaethau presennol ac ymgyfraniad y trydydd sector yn cynorthwyo'r 36% o'r boblogaeth sy'n byw mewn tldi. Gallai'r asesiad fod yn fwy eglur am oblygiadau'r heriau i'r gwasanaethau cyhoeddus o gadw mewn golwg y sefyllfa bresennol. Ydy'r ddarpariaeth bresennol yn ddigonol? Oes yna fylchau? Ble mae angen mwy o bwyslais? Byddai'r math hyn o ddadansoddiad yn galluogi'r BGC i ddeall beth sydd angen ei newid ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn. Ydy'r materion hyn ar hyn o bryd yn cael eu rheoli'n ddigonol ac ym mha feysydd y gellir bod arnynt angen mwy o weithredu ar y cyd?

5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth gynhwysfawr o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae'r dadansoddiad meintiol ac ansoddol a'r dulliau dadansoddi wrth asesu, yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant

amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Mae'n glir bod ystod eang o ddata meintiol ac ansoddol seiliedig yn y DU a Chymru, astudiaethau achos a deunydd arall wedi eu defnyddio i drwytho'r sylwebaeth yn yr asesiad llesiant. Byddai'n ddefnyddiol i gynnwys cyfeiriadau at fesurau llesiant hedinog ac ewdemonig, egwyddorion Pareto a hierarchaeth Maslow mewn atodiad methodoleg neu droednodyn os ydyw hon i fod yn ddogfen agored ar gyfer y cyhoedd a phartneriaid.

Mae'r dystiolaeth a'r dadleuon yn yr adrannau 'cyd-destun' a 'chynodau bywyd' yn glir, ac mae'r defnydd o ddata'r ymgynghoriad a'r materion sy'n dod i'r amlwg o'r deunyddiau y cyfeiriwyd atynt yn cael eu cymhwyso'n dda i Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol. Fel y trafodwyd eisoes, gellid gwella'r asesiad drwy ddarparu mwy o wybodaeth am ardaloedd a chymunedau arbennig. Mae'n amlwg bod gan Sir Gaerfyrddin amrywiaeth o gymunedau a heriau. Ym mha fodd y mae cynodau bywyd yn Llanelli a Llanymddyfri yn gwahaniaethu?

Mae yna rai agweddau ar y naratif a fedrai roi gwell dealltwriaeth o ba faterion sy'n *hanfodol* i lesiant ar draws yr ardal ac o fewn rhai ardaloedd arbennig o Sir Gaerfyrddin. Cyfeirir at y rhain yn y sylwebaeth ar gynodau bywyd ond mae angen adeiladu ar hyn i gynnwys: goblygiadau hyblygrwydd y farchnad dai, tlodi tanwydd a'r bylchau mewn pensiwn. Mae iechyd meddwl yn enghraifft glir o hyn, gyda 28% o oedolion yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl. Beth yw goblygiadau hyn i unigolion, cymunedau, cyflogwyr, darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus? Rydyn ni angen gwell dealltwriaeth strategol o effaith y sefyllfa bresennol i ddeall natur a graddfa'r cydweithredu sydd ei angen.

Mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth mwy penodol ar bob un o'r themâu.

Dechrau o'r newydd – mae'r adran hon yn disgrifio'n arbennig o dda bwysigrwydd atal a phwysigrwydd rhwydweithiau teuluol. Mewn rhai manau mae'r naratif yn ddisgrifiol ac arno angen mwy o ddehongli ar gyfer Sir Gaerfyrddin (croeso i'r byd). Mae angen i'r adran hon fod yn fwy clir am yr hyn y mae'n dymuno ei gyfleu – y rhesymwaith (y mae'n ei wneud yn dda), disgrifio'r data, neu gyfleu ei berthnasedd i Sir Gaerfyrddin.

Plentyndod – Mae'r adran hon yn ffocysu ar bresenoldeb mewn ysgolion, gofal plant, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd, a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r adran yn ffocysu ar ddangosyddion, ac efallai bod angen datblygu naratif ehangach am plentyndod yn yr ardal. Er enghraifft o dan 'Sylfeini Cryf' mae arnom angen gwybod mwy am baham mae 20% o blant yn byw mewn tlodi, a pham fod gan 10% o blant ym mlwyddyn 7 a 9 broblemau iechyd meddwl. Beth yw'r rhesymau dros y sefyllfa bresennol a beth yw'r goblygiadau i lesiant a gwasanaethau cyhoeddus?

Mae'r cyfleoedd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored wedi eu disgrifio'n dda ac mae'r ffocws ar farn plant 6-11 mlwydd ar natur llesiant yn y dyfodol yn ardderchog. A ellid ehangu hwn i bobl drwy bob cyfnod bywyd o safbwynt ac o bersbectif dinesydd yn 2050?

Ieuenctid – mae rhannau o'r adran hon wedi eu cefnogi gan dystiolaeth dda – defnyddio Cyngor Ieuenctid a data Rhwydwaith Ysgolion. Mae llawer o'r adrannau'n ffocysu'n fanwl ar ddangosyddion a byddent ar eu hennill o gael naratif ehangach. Eto mae naratif disgrifiadol yn hytrach na deongliadol yn cyfyngu ein dealltwriaeth. Beth yw'r asedau yn Sir Gaerfyrddin i bobl ifanc yn nhermau diwylliant, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfleoedd economaidd; rôl colegau a'r Brifysgol; effaith cyfryngau cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig?

Oedolaeth – Mae rhai o'r cymalau yn yr adran hon wedi eu hystyried yn ofalus (cael dau ben llinyn ynghyd) a gallai rhannau gael eu gwella drwy ddefnyddio data o'r ymgynghoriad (diwylliant) i esbonio'r mater sy'n cael ei ddisgrifio. Mae angen ehangu'r disgrifiad o dlodi tanwydd – pa mor ddifrifol yw'r mater hwn mewn gwahanol rannau o Sir Gaerfyrddin? Tra rydym yn gwybod faint o bobl sy'n gweithio o'u cartrefi, ydy economi Sir Gaerfyrddin yn gydnherth neu'n agored i niwed? Os felly, sut? Beth yw'r cyfleoedd? Ydy fforddiadwyedd tai yn broblem a chyflenwad tai? Os felly, ble?

Pobl Hŷn – Yma canolbwyntir ar gysylltiad, gofal a'r boblogaeth hŷn. Eto, mae'n ddigon clir beth yw'r broblem a pham ei bod yn bwysig, ond beth yw ei harwyddocâd yn Sir Gaerfyrddin? e.e. mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn amlwg yn broblem, ond pa mor arwyddocaol ydyw a ble? Beth sydd eisoes yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hyn? Beth mwy sydd angen ei wneud? Byddai asesiad cliriach o'r sefyllfa bresennol yn galluogi'r BGC i ddeall graddfa'r ymyrraeth sydd ei hangen. Oes yna wahaniaeth mewn disgwyliad oes rhwng cymunedau o fewn Sir Gaerfyrddin – i ba raddau y caiff hyn ei gydnabod yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus?

Byddai'r asesiad yn elwa o *gyd-destun mwy strategol* – disgrifiad ehangach o heriau llesiant yn Sir Gaerfyrddin ar gyfer darparu'r cyd-destun ar gyfer cyfnodau bywyd a'r 18 is gyfnod.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a diffygion yn Sir Gaerfyrddin.

Fe y disgrifiwyd eisoes yn y ddogfen hon, mae'r asesiad yn darparu data ar ystod o ddangosyddion sy'n esbonio agweddau allweddol ar lesiant, ond yn gyffredinol, mae angen mwy o ddehongli i adnabod natur a graddfa heriau allweddol, cyfaddawdau, tensiynau a sut

y maent yn effeithio ar yr ardal. Mae arnom angen, ar draws pob thema, well dealltwriaeth o *arwyddocâd* y materion hyn i lesiant.

Deallwn fel canlyniad i'n sgysiau dros y ffôn gyda thîm y BGC bod gwaith eisoes ar y gweill i ddehongli'r data sydd wedi ei gasglu i ddeall yr heriau allweddol i Sir Gaerfyrddin. Byddwn yn awyddus i weld sut y byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn i adnabod yr heriau'n well, a'rberthynas rhyngddynt, ond hefyd archwilio sut y gallech ymateb i'r rhain fel BGC.

Mae'n amlwg bod yna nifer o heriau strategol sy'n darparu cefndir i'ch asesiad, a ddylid, efallai eu hystyried o fewn sylwebaeth ehangach o dan bob cyfnod bywyd (fel yr awgrymwyd ym mhwynt 5 uchod). Mae'r heriau hyn yn gyffredin i bob ardal yng Nghymru. Sut mae'r materion canlynol yn effeithio ar lesiant yn Sir Gaerfyrddin?: anghydraddoldebau mewn iechyd a safon byw; cydnerthedd seilwaith; y gallu i ymdopi â'r twf yn y boblogaeth; llygredd yr aer a pheryglon llifogydd; adnoddau cyfyng ar gyfer gofal cymdeithasol; prinder tai; pobl yn byw mewn tloidi; diwygio lles; effaith hinsawdd; caledi; disbyddiad adnoddau naturiol. Tra bod y rhain yn cael sylw yn awr ac yn y man yn y naratif, byddai o fudd i gael dealltwriaeth ehangach a mwy integredig o'u heffaith, a sut y gallent effeithio ar yr ardal yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r heriau, gallai'r asesiad roi mwy o bwyslais ar asedau Sir Gaerfyrddin. Er enghraifft: diwylliant yn ymwneud â'r celfyddydau, iaith, rhwydweithiau cymdeithasol, gweithgareddau diwylliannol, bwyd a diodydd lleol, sioeau amaethyddol, rhwydweithiau gwybodaeth a gwirfoddoli. Darperir gwybodaeth am hyn yn yr arolwg, ond gellid cynnwys sylwebaeth fwy eang am lesiant diwylliannol. Beth sy'n dda am ddiwylliant Sir Gaerfyrddin a beth fedr gwasanaethau cyhoeddus adeiladu arnynt i wella llesiant yn ystod gwahanol gyfnodau bywyd?

Byddai'r cyd-destun ehangach hwn yn galluogi'r BGC i ganolbwyntio ar yr hyn y gallai fod angen i'r raddfa, natur ac ymateb fod i fynd i'r afael â'r materion hyn ac archwilio eu cydberthynas. Ble a sut fedrant ddatblygu gweithredu ar y cyd i fynd i'r afael â'r materion hyn?

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae'n amlwg bod *Y Sir Gaerfyrddin a Garem* wedi ennyn ymgyfraniad dinasyddion a rhanddeiliaid i gasglu data meintiol ac ansoddol i drwytho'r asesiad. Deöllir drwy gyfrwng y

sgwrs dros y ffôn bod llawer o ymdrech wedi cael ei gwneud i drwytho'r asesiad drwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r *Adroddiad Ymgysylltu'r Ymgynghoriad: Sir Gaerfyrddin* yn dangos yr ystod eang o ymgysylltu drwy gyfrwng yr ymgynghoriad a'r rhestr o randdeiliaid, sy'n dangos ystod drawiadol o gyrff ac unigolion a grwpiau sydd wedi dangos diddordeb. Mae'r dull o fframio'r cwestiynau ar gyfer yr arolwg yn nodedig, yn ffocysu ar unigolion, cartrefi a gwasanaethau. Mae hyn, ynghyd ag ymgysylltu ag ystod o ddigwyddiadau a gweithgareddau gydag ysgolion, yn rhoi data ardderchog ar gyfer yr asesiad llesiant. Bydd hyn ynghyd â mwy o wybodaeth leol (gweler adrannau blaenorol) yn rhoi sylfaen dystiolaeth gref ar gyfer y broses cynllunio llesiant.

Mae ymdrin â'r arolwg mewn cyfuniad ag awdurdodau cyfagos yn amlwg wedi bod yn fanteisiol o ran effeithlonrwydd, a dylid ei argymhell. Bydd hefyd yn ddiddorol i weld sut y gall cydweithio pellach ddehongli'r data i lywio materion trawsffiniol (gweler 10). Byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r asesiad amlygu lefel ymgysylltu â'r sector preifat yn y broses gan nad yw'n glir ar hyn o bryd ble mae eu persbectif hwy wedi ei fwydo i mewn. Yn gyffredinol, byddai'r asesiad ar ei ennill drwy ddealltwriaeth o'r modd y mae'r trydydd sector a'r sector preifat yn cyfrannu i gymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin, o rôl y busnes amaeth, i gefnogaeth y trydydd sector i bobl ifanc a'r henoed. Byddai'r wybodaeth hon yn darparu gwell dealltwriaeth o lesiant yn y gymuned ac yn ei dro, ddealltwriaeth o'r unigolyn, y gymuned neu'r cartref. Beth yw asedau'r trydydd sector a'r sector preifat yn Sir Gaerfyrddin?

Mae hefyd yn dda i glywed i ba raddau y mae'r asesiad hwn wedi gweithredu fel catalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC, a bod y gwaith o archwilio'r setiau data gyda phartneriaid wedi parhau yn ystod Chwefror. Dylai'r gweithgaredd hwn a chanfyddiadau allweddol o'r sesiynau gael eu hamlygu yn yr asesiad os ydy hyn yn ymarferol, cyn y fersiwn terfynol.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r Asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws polisi traddodiadol a seilos sefydliadol, ar gyfer dehongli beth a olygir gan hyn i lesiant yn yr ardal.

Mae yna le ar gyfer rhoi mwy o ystyriaeth i ddata o bob cyfnod bywyd ochr yn ochr â'r lleill, ac ystyriaeth o'r gydberthynas rhwng data. Mae hwn yn faes i chi ei ystyried ymhellach wrth i chi orffen eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Dylai hwn gynnwys mwy o integreiddio a mwy o archwilad o'r berthynas polisi/heriau rhwng themâu a chyfnodau bywyd – er enghraifft tlodi ac iechyd, cydnerthedd seilwaith a'r newid

yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth ac amaeth, busnesau gwledig a chysylltedd. Mae angen archwilio'r gydberthynas rhwng y rhain fel rhan o ymdrech ehangach i ddehongli'r data a gasglwyd hyd yn hyn.

Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'r BGC ei ystyried wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Llesiant, nid y lleiaf er mwyn deall sut y gallai adnoddau a'r sector cyhoeddus fod ag angen addasu ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n torri ar draws seilos polisi traddodiadol.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor drwy gydol yr asesiad a'r broses Gynllunio. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabyddiaeth o lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, dadansoddiad cyfyng a roddir gan yr asesiad o effaith ac arwyddocâd tueddiadau poblogaeth, y newid yn yr hinsawdd, tueddiadau economaidd, cynefinoedd a gwasanaethau ecosystem a thueddiadau iechyd.

Yn gyffredinol mae angen rhoi mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar Sir Gaerfyrddin o dan y cyfnodau bywyd ac mae hwn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r Cynllun gael eu datblygu.

Roedd yn galonogol eich bod wedi annog ffocws sy'n edrych i'r dyfodol yn yr ymgynghoriad gan ofyn y cwestiwn sylfaenol i blant ysgol "*Beth hoffech i natur llesiant fod yn y dyfodol?*" Gallech hefyd ystyried gwau tueddiadau'r dyfodol i'r ffrâm 'cyfnodau bywyd', drwy ystyried llesiant unigolyn (neu gymuned) yn 2050, drwy gynllunio senario.

Byddai'r asesiad yn elwa o ddealltwriaeth ehangach o ba mor agored i niwed/gydnerth y mae cymunedau'r ardal i'r mathau hwn o dueddiadau ac eraill? Er enghraifft, ydy cydnerthedd ynni, dŵr, trafndiaeth, tai, ansawdd pridd a bioamrywiaeth yn ddigon cydnerth i ddarparu sylfaen ar gyfer llesiant ar draws y cyfnodau bywyd? Oes yna faterion arwyddocaol sydd angen eu rheoli dros yr hirdymor? Nodwyd yn dilyn y sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC bod yna le i ddatblygu'r agwedd hon o'r asesiad.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth; Economi; Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd; Iechyd; Defnyddio Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yn yr asesiad cyntaf a gyhoeddir yn y misoedd sydd i ddod.

10. Materion Traws-ffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion traws-ffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae yna le i roi mwy o ystyriaeth i le Sir Gaerfyrddin o fewn y rhanbarth a byddai dadansoddiad mwy manwl o faterion allweddol rhanbarthol a thraws-ffiniol yn fanteisiol ar gyfer llywio cynllunio llesiant. Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar faterion llesiant traws-ffiniol megis trafniadaeth, darpariaeth iechyd, cymudo, seilwaith, tai, gweithgareddau hamdden a thirlunio – gan fod y rhain i gyd yn effeithio ar lesiant ym mhob cyfnod bywyd. Bydd hefyd yn bwysig i'r BGCau ystyried canfyddiadau asesiadau llesiant lleol ardaloedd cyfagos wrth i gynlluniau llesiant gael eu datblygu; cafodd hyn ei gydnabod yn ein sgwrs dros y ffôn gyda thîm y BGC.

Deallwn yr heriau unigryw sy'n wynebu Sir Gaerfyrddin mewn perthynas â'i hamlgysylltiadau â Rhanbarth Bae Abertawe, Gorllewin a chanolbarth Cymru. Mae'r cymhlethdod hwn yn golygu y bydd hi'n bwysig i'r BGC ddeall, o'r asesiad, lle bydd gweithredu ar lefel ranbarthol yn allweddol. Byddai'n ddefnyddiol hefyd i ddeall effaith 'asedau rhanbarthol' megis y parciau cenedlaethol.

Mae yna gysylltiadau sefydledig rhwng cyrrff cyhoeddus ar draws yr 'olion troed' hyn sydd ag angen eu hadlewyrchu yn y broses cynllunio llesiant. Gall y bydd partneriaid fel Bwrdd Iechyd y Brifysgol neu Cyfoeth Naturiol Cymru'n medru helpu i ddarparu'r persbectif rhanbarthol hwn. Byddwn hefyd yn ymddiddori mewn gweld a yw'r cydweithio gyda Sir Benfro a Cheredigion ar yr arolwg yn un y gellir ei ddatblygu i helpu yn hyn o beth.

Gallai'r holl faterion hyn gael eu cynnwys mewn sylwebaeth a dadansoddiad o'r cyd-destun strategol ehangach fel y crybwyllwyd mewn sylwadau cynharach.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae hon yn ardal lle byddem yn disgwyl gweld yr asesiad yn gwella. Gallai'r brif ddogfen gael ei chryfhau drwy ddarparu adran sy'n crynhoi bylchau data o wahanol rannau o'r gwaith i gynyddu dealltwriaeth o beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor – h.y. beth sydd ar goll sydd o bwys yn awr ar gyfer llywio Cynllunio Llesiant; beth a fyddai'n dda i'w adeiladu yn y tymor canolig a beth yw materion data'r hirdymor. Byddai hyn yn

galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a rheolaeth i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, Swyddfa ac Uned Ddata Cymru am anghenion y BGC.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimieiddio* eu cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut y mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n amlwg bod yna weithgareddau sy'n dangos sut yr ystyriwyd y pum dull o weithio fel rhan benodol o'r ymagwedd a fabwysiadwyd ac mae'r gweithgareddau hyn yn dangos dealltwriaeth o'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i hamcanion:

- *Yr hirdymor* – drwy ddefnyddio data hirdymor sydd ar gael yn hawdd, a chwestiynau yn yr ymgynghoriad
- *Ymglyfraniad* - drwy gyfrwng y gwaith ymgynghori a wnaed ac sydd ar y gweill
- *Cydweithio* – drwy weithio gyda phartneriaid statudol, awdurdodau cyfagos a drwy ymgynghori ar y cyd
- Tra caiff *Atal* ei grybwyll yng nghyd-destun yr ymyriad blynyddoedd cynnar, byddai'r asesiad yn elwa o ddisgrifiad o'r modd y mae'r agenda atal yn hollbwysig i gynllunio llesiant a chyflwyniad gwasanaethau cyhoeddus.

Fodd bynnag, nid oes llawer o dystiolaeth bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi cael ei ddefnyddio fel dull o weithredu yn yr asesiad hwn (gweler sylwadau ar *Integreiddio* ym mhwynt 9).

Ar y cyfan, byddai'r asesiad ar ei ennill o fod yn fwy clir am y modd y mae'r egwyddor wedi newid ymagwedd y BGC tuag at y gwaith hwn, a sut y bydd yr egwyddor yn siapiro'r broses cynllunio llesiant o hyn ymlaen.

Mae'n gadarnhaol i weld y pwyslais ar hyn yn yr adran '*be sy'n digwydd nawr*', ac i glywed gan y tîm BGC sut y bydd y dulliau o weithio'n dylanwadu ar waith parhaus y BGC. Mae hyn yn galonogol, gan ei bod yn bwysig i FGCau nid yn unig i ddefnyddio'r egwyddorion yn y modd y maent yn gweithio, ond hefyd wrth i chi symud ymlaen i gynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae'n gadarnhaol i weld yr adran "*Beth sy'n digwydd nawr?*" ar ddiwedd yr asesiad – sy'n dangos pum cam allweddol rhwng nawr a chynhyrchiad y cynllun llesiant (ac adolygiad). Mae Cam 3 yn amlwg yn rhan bwysig o'r broses – cymryd yr asesiad a datblygu amcanion llesiant y BGC.

Byddai'n ddefnyddiol i chi fod yn fwy clir am y modd y bydd cam 3 yn mynd rhagddo h.y. sut y gall unigolion a sefydliadau barhau i ymglyfrannu; yr amserlen; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei gyflawni. Yn bwysig, mae angen i'r eglurhad hwn gyfleu sut y bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i fformiwleiddio amcanion ar gyfer y BGC.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle gallai'r Asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymglyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg bod hyn wedi bod yn ymrwymiad enfawr dros gyfnod cymharol fyr, a bod partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i gynhyrchu'r asesiad drafft. Mae'n amlwg bod lefel yr ymgysylltiad drwy'r arolwg llesiant yn arbennig o gadarnhaol. Mae'r gwaith yn darparu sylfaen gref i'r BGC gychwyn blaenoriaethu materion ar gyfer y cynllun llesiant a phenderfynu pa asesiadau pellach sydd eu hangen. Fodd bynnag ar yr un pryd, credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol i wella'r asesiad:

nodau llesiant – dealltwriaeth eglurach o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol.

cyd-destun strategol – gosod cyd-destun ehangach ar gyfer Sir Gaerfyrddin dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor i ddarparu'r 'awyrgylch' ar gyfer cyfnodau bywyd a sylwebaeth a mesurau cysylltiedig.

ardal a lle – ategu dadansoddiad cyfnodau-bywyd, gwell dealltwriaeth o lesiant o fewn ardaloedd o Sir Gaerfyrddin, ei threfi, ardaloedd gwledig, ac ardaloedd

arfordirol i adlewyrchu'n well y materion allweddol ar gyfer llesiant mewn gwahanol leoedd.

integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y gydberthynas rhwng y data a gasglwyd a goblygiadau hyn i lesiant.

cyd-destun rhanbarthol – dealltwriaeth ehangach o le Sir Gaerfyrddin yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos, ac effaith hyn ar lesiant.

dehongliad o ddata ac arwyddocâd – mwy o eglurhad o'r modd y mae'r materion a adnabuwyd drwy'r data'n effeithio ar lesiant unigolion a chymunedau, a'u harwyddocâd ar draws Sir Gaerfyrddin.

cyd-destun rhanbarthol – gwell dealltwriaeth o le Sir Gaerfyrddin yn y rhanbarth a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos.

tueddiadau'r dyfodol – talu mwy o sylw i effaith posibl tueddiadau hirdymor ar lesiant yn Sir Gaerfyrddin yn gyffredinol, i gymunedau arbennig ac i ddinasyddion y dyfodol (drwy'r naratif cwrs bywyd).

symud ymlaen – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio'r asesiad data, sut y bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut y bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen.

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio parhaus hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Sir Gaerfyrddin a thrwy'r holl broses cynllunio llesiant.